Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Victoria John**

**Hwlffordd**



## Dyddiad Cyhoeddi

**2 Tachwedd 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Victoria John wedi'i chofrestru ers 2006. Mae'n darparu gofal ar gyfer naw plentyn o dan ddeuddeg oed yn ei chartref yn Spittal, Sir Benfro. Yr oriau agor yw 8am i 6pm o ddydd Llun i ddydd Gwener. Saesneg yw iaith y gofal.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

**1. Asesiad cyffredinol**

Mae'r plant yn cael gofal gan warchodwr plant profiadol a gofalgar. Mae'r plant wedi setlo'n dda ac wedi datblygu cydberthnasau cadarnhaol â'r gwarchodwr plant. Maent yn cael gofal mewn amgylchedd diogel ac ysgogol gyda digon o le i chwarae dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r rhieni'n hapus iawn â gofal eu plant a'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu. Mae'r gwarchodwr plant yn cynllunio gwelliannau ac yn rheoli'r gwasanaeth yn effeithiol ac yn effeithlon.

**2. Gwelliannau**

Mae mwy o deganau a chyfarpar wedi cael eu prynu gan gynnwys bygi dwbl newydd a siacedi gweledau uchel.

**3. Gofynion ac argymhellion**

Argymhellwn y dylai'r gwarchodwr plant wneud y canlynol

- cynnal asesiad risg o fesurau diogelwch.

## 1. Llesiant

### Crynodeb

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus ac wedi setlo yn y gwasanaeth. Maent yn mynegi eu hunain yn hyderus gan wybod y bydd y gwarchodwr plant yn gwrando arnynt. Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae'n fawr iawn. Maent yn dysgu ac yn datblygu'n dda ac yn dod yn annibynnol.

### Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae'r gwarchodwr plant yn gwrando ar y plant a gallant wneud dewisiadau a phenderfyniadau.

Roedd gan y plant ddewis o weithgareddau ac roeddent wedi rhoi gwybod i'r gwarchodwr plant am eu penderfyniadau'n hyderus. Er enghraifft, ar ôl cael byrbryd, dewisodd y plant chwarae gyda ffyn magnet a gêm loteri. Ar ôl dihuno ar ôl eu cwsg prynhawn, penderfynodd y plant beth roeddent am ei wneud. Gwnaethant benderfynu eu bod am ganu cyn i'r gwarchodwr plant adrodd stori iddynt. Pan roeddent yn gwneud ceisiadau i'r gwarchodwr plant, roeddent yn gwybod y byddent yn cael ymateb cadarnhaol. Er enghraifft, dywedodd un plentyn "I like this story. Can you read this please?"  Ar ôl dihuno, dywedodd y plant wrth y gwarchodwr plant bod syched arnynt a chawsant botel o laeth a dŵr i'w hyfed. Wrth ddechrau chwarae'r loteri, gofynnodd y plant "Can I choose this mat please?" ac ymatebodd y gwarchodwr plant yn gadarnhaol.

Mae gan y plant lais cryf yn y gwasanaeth hwn.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn ddiogel ac wedi setlo'n dda. Maent yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol ac mae ganddynt gydberthynas agos â'r gwarchodwr plant.

Dihunodd y plant o'u cwsg prynhawn yn hapus a gwnaethant swatio gyda'r gwarchodwr plant wrth iddi ddarllen stori. Sgwrsiodd y plant â'r gwarchodwr plant yn gyffrous am eu teuluoedd wrth iddynt gerdded i gasglu plant o'r ysgol. Ar ôl ysgol, dywedodd y plant wrthym eu bod yn mwynhau eu hunain yng nghartref y gwarchodwr plant, eu bod yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel ac y byddent yn teimlo'n hyderus i ddweud wrth y gwarchodwr plant pe byddent yn teimlo'n drist neu'n unig. Yn y parc, roedd y plant wedi gofyn am help gan y gwarchodwr plant yn ôl yr angen. Lluniodd y plant garden i'w rhoi i blentyn a oedd yn gorffen yn y gwasanaeth. Gwnaethant drafod â'r gwarchodwr plant sut y byddent yn gweld eisiau'r plentyn a gwnaethant ddymuno'n dda iddo ar ei antur newydd. Dywedodd y plant wrthym eu bod yn teimlo fel un teulu mawr hapus.

Mae'r plant yn hapus ac wedi ymlacio a setlo'n dda. Maent wedi ffurfio cydberthnasau cadarnhaol â'i gilydd a'r gwarchodwr plant.

**1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?**

Mae'r plant yn dysgu i reoli eu hymddygiad. Maent yn aros eu tro, yn cydweithredu ac yn helpu ei gilydd.

Roedd y plant wedi mwynhau gwrando ar y gwarchodwr plant yn adrodd stori Gymraeg a gwnaethant gymryd eu tro i godi fflapiau'r llyfr. Roedd y plant wedi dal dwylo wrth iddynt gerdded o'r ysgol i'r parc. Roedd y plant hŷn wedi gosod esiampl wych i'r plant iau drwy ddal yr iet ar agor yn gwrtais i'r plant a'r gwarchodwr plant fynd drwyddi. Yn y parc, roedd y plant wedi rhyngweithio'n gadarnhaol, gan helpu ei gilydd. Roedd y plant hŷn wedi helpu'r plant iau i ddringo'r grisiau ac roedd y plant wedi cydweithio i ddefnyddio siglen fawr. Roeddent wedi cymryd eu tro i chwarae â'r cyfarpar. Er enghraifft, roedd un plentyn wedi eistedd y tu ôl i'r olwyn lywio tra bod ei ffrind wedi eistedd yn y cefn, cyn cyfnewid rolau.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol iawn â'i gilydd.

**1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?**

Mae'r plant yn dilyn eu diddordebau eu hunain a gallant ddewis eu gweithgareddau eu hunain.

Roedd y plant wedi mynd i nôl llyfrau yr oeddent am edrych arnynt o'r silffoedd yn hyderus. Roeddent wedi mwynhau edrych ar y llyfrau a dywedodd un plentyn “I like this book!  Her belly is big now!”  Wrth gerdded i'r ysgol, roedd un plentyn wedi mwynhau chwarae “I spy colours.” Cymerodd y plentyn ei dro'n frwdfrydig wrth chwarae'r gêm gyda'r gwarchodwr plant gan chwerthin yn uchel pan roedd ef neu'r gwarchodwr plant wedi dyfalu'n gywir. Dywedodd y plant wrthym eu bod yn mwynhau gwneud celf a chrefft, lliwio, gemau cardiau, tylwyth teg dŵr a chwarae yn yr ardd. Roedd y plant ar ôl ysgol wedi mwynhau chwarae yn y parc lleol yn fawr iawn.

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu'n fawr iawn.

**1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?**

Mae'r plant yn datblygu eu sgiliau ac yn dysgu i fod yn fwy annibynnol.

Roedd y plant bach wedi mynd i nôl yr adnoddau eu hunain, gan ddewis y teganau yr oeddent am chwarae â nhw. Tynnodd un plentyn ddeinosor o flwch a gofynnodd i'r gwarchodwr plant a allai fynd â'r deinosor gydag ef ar y daith i'r ysgol. Taclusodd y plant yr adnoddau gan eu rhoi yn ôl  yn y lleoedd cywir. Gwnaethant wisgo a thynnu eu hesgidiau eu hunain i fynd i'r ysgol. Roedd y plant bach wedi tynnu eu byrbryd o'u bagiau ac roedd y plant hŷn wedi hongian eu bagiau ar y bachau ac wedi gosod eu hesgidiau ar resel esgidiau. Roedd hi'n amlwg bod y plant yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol oherwydd, ar ôl iddynt hongian eu bagiau a gosod eu hesgidiau ar y rhesel esgidiau, aethant i olchi eu dwylo cyn cael byrbryd. Cafodd y plant gyfle i ddatblygu eu sgiliau echddygol bras drwy fynd i'r parc ar ôl ysgol a chwarae ar y cyfarpar mawr.

Mae'r plant yn cael eu cymell i ddatblygu a dod yn annibynnol.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn hybu ffyrdd iach o fyw ac yn cadw'r plant yn ddiogel. Mae ganddi bolisïau a strategaethau ar waith i hybu ymddygiad cadarnhaol. Mae'r gwarchodwr plant yn ymrwymedig i ddiwallu anghenion unigol y plant yn ei gofal.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r gwarchodwr plant yn dilyn polisïau a gweithdrefnau diogelwch.

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth dda o weithdrefnau amddiffyn plant ac roedd ganddi hyfforddiant cyfredol. Rhoddodd amlinelliad clir o'i hymateb pe bai ganddi unrhyw bryderon. Roedd hi'n ymwybodol o'r ddyletswydd i atal plant rhag cael eu radicaleiddio ac roedd ganddi bolisi ar waith. Roedd y gwarchodwr plant wedi paratoi asesiadau risg ar gyfer yr ardal dan do a'r ardal awyr agored. Fodd bynnag, nid oedd ei drws wedi'i gloi yn ystod ein hymweliad. Roedd cofnodion yn dangos bod ymarferion tân rheolaidd yn cael eu cynnal ac roedd y gwarchodwr plant wedi gosod drysau tân yn yr ardal fyw ar y llawr daear. Roedd y gwarchodwr plant wedi cofrestru gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd leol. Roedd hi'n hybu ffyrdd iach o fyw ac roedd wedi cwblhau pob agwedd ar Wobr Genedlaethol y Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy. Roedd ardal chwarae awyr agored ar gael i'r plant ac roeddent wedi ymweld â'r parc lleol yn ystod ein hymweliad. Roedd gan y gwarchodwr plant siacedi gweledd uchel i'r plant eu gwisgo ar ymweliadau ac roedd hi'n cario pecyn cymorth cyntaf bach. Mae ganddi hyfforddiant cyfredol ym maes cymorth cyntaf pediatrig a hylendid bwyd.

Mae'r gwarchodwr plant yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach bob amser.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r gwarchodwr plant yn rhyngweithio mewn ffordd gyson â'r plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn fodel rôl da ac roedd hi'n dyner ac yn amyneddgar gyda'r plant. Roedd hi'n canmol y plant yn gyson gan ddweud, er enghraifft, “Beautiful singing!” Roedd hi'n gadarnhaol hyd yn oed pan roeddent yn ateb yn anghywir. Er enghraifft, pan ofynnodd “How many legs does a spider have?” atebodd y plentyn bach yn anghywir a dywedodd hithau, “Nearly, try again.” Roedd ganddi bolisïau a strategaethau a oedd yn atgyfnerthu ymddygiad da. Roedd y plant yn gallu egluro'r "Golden tree rules" a oedd yn cynnwys: rhannu, bod yn gymwynasgar, bod yn gwrtais, dwylo tyner, bod yn ofalgar, dangos parch, bod yn garedig a gosod esiampl. Dywedodd y plant wrthym eu bod bob amser yn garedig i'w gilydd ac yn cyd-dynnu'n dda iawn. Roedd y plant wedi ymddwyn yn eithriadol o dda yn ystod ein hymweliad ac roedd y plant hŷn yn garedig iawn i'r plant iau. Cyn gadael y parc, dywedodd y gwarchodwr plant wrth y plant y byddent yn gadael mewn pum munud ac felly, pan roedd hi'n amser gadael, roedd y plant yn barod i wneud hynny.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ymddygiad yn gyson ac yn eithriadol o dda.

## 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r gwarchodwr plant yn creu awyrgylch meithringar a gofalgar ac mae'n ymateb i anghenion unigol y plant.

Roedd y gwarchodwr plant yn ofalgar ac yn serchus gyda'r plant yn eu gofal a chadarnhawyd hyn gan yr holiaduron i rieni. Er enghraifft: “Really enjoys her time with Vicci”, “Children are content, confident and supported” ac “I have no reservations in recommending Vicci to other parents.” Roedd y gwarchodwr plant yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn ymateb i'w hanghenion. Er enghraifft, dywedodd un plentyn wrth y gwarchodwr plant bod ganddo fola tost. Atebodd y gwarchodwr plant “How can we make it better? Do you need a cuddle?” Nodiodd y plentyn a rhoddodd y gwarchodwr plant gwtsh i'r plentyn bach cyn iddo fynd i chwarae. Roedd y gwarchodwr plant wedi casglu gwybodaeth am hoffterau a dewisiadau'r plant cyn iddynt ddechrau yn y gwasanaeth. Roedd hi'n llenwi dyddiaduron dyddiol ar gyfer y plant iau gan roi manylion am eu gweithgareddau, eu bwyd a'u cwsg. Roedd y plant a oedd yn dysgu mynd i'r toiled yn cael sticeri i'w gosod yn eu dyddiaduron dyddiol fel y gallai'r rhieni rannu eu llwyddiant wrth ddefnyddio'r poti. Roedd y gwarchodwr plant yn tynnu lluniau o'r gweithgareddau amrywiol roedd y plant yn cymryd rhan ynddynt ac yn eu rhannu â'r rhieni drwy grŵp WhatsApp. Roedd hi'n cynllunio gweithgareddau ar sail thema fel 'Yr haf' ac yn nodi cerrig milltir datblygiadol y plant ym mhob un o feysydd y Cyfnod Sylfaen. Roedd hi'n hyrwyddo'r Gymraeg drwy ganu caneuon Cymraeg a darllen llyfrau Cymraeg. Roedd y gwarchodwr plant wedi achub ar bob cyfle i hybu datblygiad y plant, er enghraifft, pan ddywedodd plentyn fod gan y deinosor wddf hir, gofynnodd y gwarchodwr plant iddo feddwl am anifail arall sydd â gwddf hir.

Mae'r gwarchodwr plant yn cynllunio gweithgareddau diddorol ac ysgogol sy'n hybu chwarae a datblygiad y plant.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y safle yn ddiogel, yn lân ac yn addas i'r plant. Mae'n defnyddio'r ystafell chwarae ar gyfer y rhan fwyaf o'i gwaith gwarchod plant ac mae'r plant yn cysgu mewn cotiau symudol yn yr ystafell fyw. Gall y plant fynd allan i'r ardd awyr agored fawr.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r gwarchodwr plant yn cadw'r safle yn ddiogel, yn lân ac yn daclus.

Roedd y gwarchodwr plant yn cadw cofnod o bob ymwelydd yn ei dyddiadur. Roedd y drws i'r ystafell chwarae yn cael ei gadw ar gau. Roedd y safle yn lân, yn gyfforddus ac mewn cyflwr da. Roedd y gwarchodwr plant wedi cynnal asesiad risg mewn perthynas â'r holl ardaloedd a ddefnyddir gan y plant ac roedd ganddi gofnodion o archwiliadau diogelwch. Gwelsom gofnodion gwasanaethu blynyddol y system wresogi. Roedd y gwarchodwr plant yn profi'r larymau tân ac yn cynnal ac yn cofnodi ymarferion tân bob mis.  Roedd blanced dân ar wal y gegin. Roedd cyfarpar glanhau yn cael ei gadw mewn cwpwrdd yn yr ystafell gyfleustod nad oedd y plant yn gallu mynd i mewn iddi. Pan roedd y plant yn chwarae y tu allan yn yr ardd, roedd ffensys pren dros dro yn cael eu codi er mwyn amgáu'r ardal.

Mae'r gwarchodwr plant yn dilyn gweithdrefnau effeithiol i gadw'r amgylchedd yn ddiogel.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r safle yn groesawgar ac mewn cyflwr da.

Roedd digon o le a chyfleusterau ar y safle a gallai'r plant fynd i nôl teganau ac adnoddau'n hawdd. Roedd dodrefn maint plant ar gael yn yr ystafell chwarae ac, ar y waliau, roedd gwaith celf y plant, fel arddangosfa uchder blodyn haul a'r "Golden tree rules". Roedd bwrdd maint oedolion yn yr ystafell chwarae ac roedd seddi 'booster' a chadeiriau uchel ar gael i'r plant. Roedd potis, seddi toiled bach a grisiau ar gael i'r plant yn ogystal â thywelion unigol bach i sychu eu dwylo. Roedd lle newid cewynnau ar gael yn yr ystafell chwarae. Roedd ardal awyr agored fawr ar gael i'r plant. Ni chwaraeodd y plant yn yr ardd yn ystod ein hymweliad. Fodd bynnag, roedd sied yn llawn o offer chwarae addas fel beiciau, teganau reidio amrywiol, pabell, twnnel, siglwyr, llithren, teganau dŵr a chegin blastig fawr. Dywedodd y plant wrthym eu bod yn mwynhau chwarae yn yr ardd.

Mae'r amgylchedd yn addas iawn i'r plant.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a’r cyfarpar o ansawdd?

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod cyfarpar ac adnoddau addas ar gael i'r plant.

Roedd y teganau yn lân ac mewn cyflwr da. Yn yr ystafell chwarae, roedd amrywiaeth eang o gyfarpar ac adnoddau ar gyfer pob ystod oedran a gallai'r plant fynd i'w nôl yn hawdd. Roedd y teganau hyn yn cynnwys: gemau, llyfrau, deinosoriaid, dolis a bygis, tractors, ffigurau antur a dillad chwarae rôl. Roedd digon o ddeunyddiau ar gael ar gyfer gweithgareddau crefft. Roedd cyfarpar fel cadeiriau uchel a seddi 'booster' mewn cyflwr da. Roedd detholiad o gyfarpar ac adnoddau yn yr ardal awyr agored a oedd mewn cyflwr da ac yn addas i'r plant chwarae â nhw.

Mae'r gwarchodwr plant bob amser yn sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfarpar o ansawdd da.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn uchel ei chymhelliant ac mae'n amlwg yn mwynhau gofalu am y plant. Mae'n cadw'r holl gofnodion a dogfennau gofynnol ac mae ganddi sgiliau trefnu da.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r gwarchodwr plant yn creu ethos cadarnhaol lle mae'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'n darparu datganiad o ddiben cyfredol sy'n rhoi darlun cywir o'r gwasanaeth a ddarperir.

Roedd y datganiad o ddiben yn glir, yn llawn gwybodaeth ac yn rhoi darlun cywir o'r gwasanaeth. Cadarnhaodd y rhieni eu bod yn hapus iawn â'r wybodaeth y maent yn ei chael am y gwasanaeth. Roedd yr holl gofnodion a dogfennau gofynnol ar gael ac roeddent yn drefnus. Roedd y gwarchodwr plant wedi cael yr holl ffurflenni angenrheidiol gan y rhieni, fel gwybodaeth bersonol a chontractau. Roedd y gwarchodwr plant wedi cael cydsyniad ar gyfer gofal meddygol brys gan y rhieni. Roedd y gwarchodwr plant a'r rhieni'n llofnodi cofnodion damweiniau a digwyddiadau. Roedd gan y gwarchodwr plant ystod o bolisïau a gweithdrefnau a oedd yn canolbwyntio ar ddiwallu anghenion y plant, fel amddiffyn plant a rheoli ymddygiad. Roedd hi wedi ysgrifennu polisïau newydd gan gynnwys defnyddio'r rhyngrwyd, newid cewynnau a GDPR.

Mae'r arweinyddiaeth yn dda.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae gan y gwarchodwr plant systemau i adolygu ei gwasanaeth ac mae'n gwerthfawrogi adborth gan y rhieni a'r plant.

Roedd y gwarchodwr plant wedi rhoi holiaduron i'r rhieni yn gofyn am eu hadborth ar y gwasanaeth. Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan y rhieni gan gynnwys sylwadau fel “I have no concerns about my children whilst in your care”, “relaxed and engaging setting” a “communication is excellent.” Yn yr adroddiad diweddaraf ar ansawdd y gofal, nodwyd y manteision sy'n gysylltiedig â rhwydweithio â gwarchodwyr plant eraill a chymryd rhan mewn gweithgareddau, fel dathlu'r briodas frenhinol, gyda'i gilydd. Roedd y plant wedi rhoi adborth cadarnhaol iawn am y gwasanaeth, gan gynnwys y ffaith eu bod yn mwynhau cerdded i'r ysgol, chwarae yn yr ardd a chael amser i chwarae gyda'u ffrindiau.

Mae'r gwarchodwr plant yn gwerthuso ei gwasanaeth.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae gan y gwarchodwr plant brofiad a chymwysterau gofal plant priodol.

Mae gan y gwarchodwr plant hyfforddiant cyfredol ym maes diogelu, cymorth cyntaf pediatrig a hylendid bwyd. Roedd ganddi hi a phawb arall dros 16 oed sy'n byw ar yr

aelwyd dystysgrifau dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Roedd hi wedi cofrestru ag adran diogelwch bwyd yr awdurdod lleol a swyddfa'r comisiynydd gwybodaeth. Roedd gan y gwarchodwr plant dystysgrif yswiriant cyhoeddus ddilys ac roedd holl ddogfennau'r car yn gywir.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei busnes yn drefnus.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r gwarchodwr plant yn gweithio'n agos gyda'r rhieni a gwarchodwyr plant eraill ac yn mynd i grwpiau plant yn y gymuned.

Roedd gan y gwarchodwr plant gydberthynas waith dda â'r rhieni ac roedd hi'n darparu dyddiadur dyddiol o weithgareddau'r plant iau ac adborth llafar i rieni'r plant hŷn. Roedd y gwarchodwr plant wedi cyfarfod â nifer o warchodwyr plant yn yr ardal er mwyn rhannu syniadau ac arfer da, yn ogystal â threfnu digwyddiadau a rhoi cyfle i'r plant gymdeithasu. Roedd hi'n mynd â'r plant i grwpiau plant yn rheolaidd gan sicrhau bod y plant yn rhan o'u cymuned. Roedd hi hefyd yn mynd â'r plant i'r ganolfan chwarae meddal leol a'r parc. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod yn mynd â'r plant ar nifer o ymweliadau addysgol yn ystod gwyliau'r ysgol, er enghraifft, nofio, casglu mefus a phwmpenni, Maenordy Scolton, Ynys Aberteifi a Pharc Antur Clerkenhill.

Mae gan y gwarchodwr plant bartneriaethau cadarnhaol iawn â'r rhieni a'r gymuned ehangach.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Argymhellwn y dylai'r gwarchodwr plant wneud y canlynol

- cynnal asesiad risg o fesurau diogelwch.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Rhoddwyd cyfnod byr o rybudd i'r gwarchodwr plant er mwyn cadarnhau ei bod ar gael.

Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 18 Gorffennaf 2018 am gyfanswm o 5 awr. Rhoddwyd adborth dros y ffôn yn ddiweddarach. Gwnaethom:

- archwilio sampl o ddogfennau a pholisïau;
- arsylwi ar arferion gofal
- siarad â'r plant a'r rhieni.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gwarchodwr Plant** |
| **Person Cofrestredig** | **Victoria John** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **9** |
| **Ystod oedran y plant** | **0-12 oed** |
| **Oriau agor** | **8am i 6pm o ddydd Llun i ddydd Gwener** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Saesneg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **29 Medi 2015** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **18 Gorffennaf 2018** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg gan ei fod mewn ardal Saesneg yn bennaf. Fodd bynnag, clywyd y Gymraeg yn achlysurol yn ystod yr ymweliad arolygu ac mae adnoddau Cymraeg ar gael i'r plant ac roeddent yn cael eu defnyddio.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |